Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **10 Mawrth 2020** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

1-03/20: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Eirwyn Williams;

Clerc – Dr Catrin Jones.

Croesawyd Mr Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig Cyngor Gwynedd i'r cyfarfod a oedd yn bresennol ar gyfer 14-03/20 a 16-03/20

2-03/20 Ymddiheuriadau:

Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Sian Williams; Cyng. Robert T Price;

3-03/20: Datgan diddordeb

4-03/20 Cadarnhau cofnodion mis Chwefror 2020
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-03/20 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

a. Nodwyd bod llythyron diolch wedi ei derbyn am gyfraniadau gan:
   Clwb Tenis Criccieth
   Criccieth yn ei Blodau
   Clwb Drama Llanystumdwy
   Pwyllgor Apêl Criccieth – Eisteddfod Genedlaethol Cymru
   Neuadd Goffa Criccieth

b. Nodwyd bod cais wedi ei gyflwyno am becyn lleoedd lleol ar gyfer Gardd Natur Criccieth.

6-03/20: Gohebiaeth

a. Cyngor Gwynedd - Cais trwydded eiddo: Awel Môr, 29 Marine Terrace, Criccieth, LL52 0EL - e-byst 25 a 26 Chwefror 2020
   Roedd yr ymgynghoriad wedi ei gylchredeg ar gyfer cais am drwydded i drigolion yn unig - fyny at 15 o gwsmeriaid ar y tro. Roedd y staff yn ymwybodol o amcanion trwyddedu.

   Penderfyniad:

   Cymeradwyo

b. Cyngor Gwynedd - Arwyddion Maes Parcio gyferbyn â Gwesty'r George, Stryd Fawr Criccieth - e-bost 28 Chwefror 2020
Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi ymchwilio i'r gwyn ac yn cadarnhau bod angen caniatâd cynllunio ar yr arwyddion a'r hysbysebion ac maent wedi gofyn i'r perchennog tir eu symud oddi yno. Maent hefyd wedi gofyn i'r perchennog symud y malurion o ganlyniad i'r tywydd garw diweddar. Roedd gan y perchennog hawl i wneud cais am ganiatâd arddangos yr hysbysebion.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth

c. Cyngor Gwynedd - Newidiadau i Bolisi Gosod Tai - e-bost 28 Chwefror 2020
Manylion wedi ei gylchredeg er gwybodaeth a oedd yn nodi bod y ffordd mae tai cymdeithasol yng Ngwynedd yn cael eu gosod ar fin newid i roi mwy o bwyslais ar flaenoriaethu pobl leol sydd mewn angen tai. Bydd Cyngor Gwynedd yn ysgrifennu at bawb ar y gofrestr i egluro sut y bydd hyn yn effeithio arnynt.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth

d. Un Llais Cymru - Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol 26 Mawrth 2020 - e-bost 19 Chwefror 2020
Cynhelir pedwaredd Gynhadledd Arfer Arloesol a Gwobrau Cenedlaethol eleni - manylion wedi eu cylchredeg.

Penderfyniad:
Rhoi hawl i'r Cadeirydd gymeradwyo enwau i fynychu

e. Un Llais Cymru - Aelodaeth - e-bost 10 Chwefror 2020
Roedd gohebiaeth wedi ei gylchredeg am fanteision aelodaeth Un Llais Cymru - a oedd yn dangos yr hyn bu Un Llais Cymru yn ei wneud ar ran y sector yn ystod blwyddyn ariannol 2019-2020 a beth y gellir disgwyl os yw'r cyngor yn parhau gyda'r aelodaeth. Bydd y gost yn £322 ar gyfer 2020/21 ar sail nifer y tai yng Nghriccieth - mae'n wasanaeth gwerthfawr i'w gael.

Penderfyniad:

Roedd Un Llais Cymru yn wasanaeth gwerthfawr iawn i'w gael a chytunwyd y dylid parhau gyda'r aelodaeth ar gost o £322 ar gyfer 2020-21 ac i'r dyfodol. Dylid talu'r aelodaeth yn y cyfarfod.

f. Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol -Adroddiad Ychwanegol Drafft - Egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu Costau Gofal - e-bost 13 Chwefror 2020

Roedd yr adroddiad drafft yn nodi 7 o egwyddorion yn ymwneud ag ad-dalu Costau Gofal gyda'r bwriad i alluogi holl aelodau i ymgymryd â'i dyletswyddau'r effeithiol.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth

g. Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol Terfynol 2020-21 - e-bost 19 Chwefror 2020
Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg. Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi ystyried yr adroddiad drafft ac wedi gweithredu arno ac nad oedd newid yn yr adroddiad blynyddol terfynol.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth

h. Cyngor Gwynedd – Canllawiau Brexit –llythyr 11 Chwefror 2020
Roedd y llythyr wedi ei gylchredeg – nodwyd bod tudalen benodol ar Gyngor Gwynedd yn cyfeirio trigolion a busnesau lleol tuag at wybodaeth berthnasol ar wefannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU - : www.gwynedd.llyw.cymru/brexit.

Penderfyniad:
I roi'r llythyr ar safle We'r Cyngor a hefyd ar hysbysfwrdd y Cyngor.

i. Swyddfa Archwilio Cymru - Ymgynghoriad ar Drefniadau Archwilio yn y Dyfodol ar gyfer Cynghorau Cymuned yng Nghymru - e-bost 6 Chwefror 2020
Roedd cyswllt i'r ymgynghoriad wedi ei gylchredeg.

Penderfyniad:
Aelodau a'r Clerc i ystyried ymateb.

7 **03/20: Ceisiadau Cynllunio**

Nodwyd bod un cais wedi dod i law ers cyhoeddi'r agenda

a. C20/0121/35/ Cais ar gyfer codi adeilad ar gyfer storio cyfarpar mewn cysylltiad â defnydd sefydledig y tir o gwmpas y gwesty fel daliad amaethyddol o raddfa fach
: Mynydd Ednyfed Hotel Ffordd Caernarfon, Criccieth, Gwynedd, LL52 0PH

Penderfyniad:
Dim gwrthwynebiad

8-03/20: Llenwi seddau gwag y Cyngor Tref

Roedd tri llythyr cais ar gyfer swydd Cynghorydd Tref wedi cael ei dderbyn erbyn y dyddiad cau 29 Chwefror ac wedi ei gylchredeg i aelodau. Dosbarthwyd papur balot i bob aelod oedd yn bresennol i bleidleisio at fyny i ddau ymgeisydd o'u dewis.

Penderfyniad:

Cyfetholwyd a chroesawyd Ms Ffion Gwyn a Ms Alice Roberts yn Gynghorwyr i'r Cyngor Tref. Disgwylir i'r ddwy lenwi'r ffurflen derbyn swydd erbyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ym mis Ebrill. Diolchwyd i'r ymgeisydd aflwyddiannus am y cais.

9-03/20 Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys Llwybr 11

Roedd y Clerc wedi ysgrifennu i ofyn am gyfarfod gan swyddog gyda'r Cyng. Wayne Roberts a oedd hefyd wedi ceisio cysylltu gyda'r swyddog dros y ffôn.

Penderfyniad:
Y Clerc i ysgrifennu eto at Swyddog Cyngor Gwynedd.

10-03/20: Goleuadau Nadolig 2020

a. Goleuadau Colofn Newydd

Roedd yr anfoneb ar gyfer y goleuadau colofn newydd i'w dalu wedi eu cyflwyno i'w dalu yn y cyfarfod hwn. Ni fydd y goleuadau yn dod i berchnogaeth a chyfrifoldeb y Cyngor Tref tan iddynt gael ei gosod – a tan hynny yn dod o dan bolisi yswiriant y trydanwr.

b. Defnydd y goleuadau colofn eraill

Nodwyd y bydd costau ychwanegol ar gyfer gosod goleuadau colofn ar ffordd Gaernarfon - £42.00 yr un am fracedi a chost gosod o £115 yr un. Ar ben hyn bydd angen talu Cyngor Gwynedd i osod cyflenwad trydan ar gyfer pob un. Roedd angen cadarnhad o'r costau yma.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth - y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd.

11-03/20 Diweddariad cyllid 2019/20

Roedd adroddiad cyllidol gan y Clerc wedi ei gylchredeg i'r holl aelodau. Roedd yn dangos Incwm a Gwariant cyllid yn erbyn y gyllideb fyny at ddiwedd Chwefror 2020 a'r cysondeb banc am y cyfnod.

Nodwyd bod £53,541.78 wedi'i wario (gan gynnwys TAW) allan o'r £80,160 a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Roedd £33,627 yn y cyfrif 'Community Account' a £30,494.01 yn y cyfrif 'Money Manager'. Byddai angen ychwanegu taliadau mis Mawrth hefyd at y gwariant ar gyfer 2019/20 a oedd yn cynnwys gwariant sylweddol ar oleuadau Nadolig ar gyfer 2020.
Nodwyd bod angen trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Is-Cyllid, Polisi a Rheolaethol er mwyn trafod y bidiau am safle We newydd i'r Cyngor Tref.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth a chytuno i drefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Is-Cyllid, Polisi a Rheolaethol ar nos Fercher 8 Ebrill 2020.

12-03/20 Cyllideb 2020/21

Roedd y gyllideb ddrafft wedi cael ei addasu i gymerid ystyriaeth o'r ffaith bod angen gwario ar safle we newydd i'r Cyngor Tref ac roedd £2k wedi ychwanegu ar gyfer hyn. Roedd y swm o £25k ar gyfer y Cynllun Cymunedol wedi ei ostwng i £20k gan mai dyma sydd ar ôl yn y gyllideb heb ei wario. Roedd costau swyddfa Clerc wedi cynyddu - felly wedi ychwanegwyd £50 i hwn. Cyfanswm cyllideb ar gyfer £2020/21 yn £68,760 yn hytrach nag £71,660 y gyllideb ddrafft.

Penderfyniad:

Mabwysiadwyd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 (Atodiad 1)

13-03/20 Cofrestr Asedau'r Cyngor Tref 2019/20

Roedd y gofrestr asedau wedi cael i ddiweddaru i ychwanegu asedau'r Cyngor Tref yn sgil prosiect Strydoedd Unigryw. Roedd angen tynnu ffwrdd gwerth yr hen oleuadau Cyngor Tref £6954.00 - felly roedd amcangyfrif asedau o £89,567.64 ar gyfer y datganiad blynyddol. Roedd yna asedau wedi'i dileu yn 2019/20 ond doedd dim modd tynnu nhw o werth yr asedau tan 2020/21.

Penderfyniad:

Cymeradwyo'r gofrestr asedau.

14-03/20 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Jet sgis

Gwahoddwyd Mr Barry Davies i gyflwyno i'r Cyngor Tref a chael trafodaeth oherwydd consyrn am ddiogelwch y cyhoedd yn dilyn ymddygiad peryglus gan ddefnyddiwr jet sgi yng Nghriccieth Awst 2019. Roedd gohebiaeth gyson wedi bod rhwng y Cyngor Tref a'r Swyddog ers y digwyddiad yn mynegi consyrn y Cyngor Tref a phetisiwn cyhoeddus wedi ei gyflwyno i gefnogi gwahardd jet sgis. Esboniodd y Swyddog nad oedd yn bosib i wahardd jet sgis. Nododd y camau oedd yn cael eu cymerid yn barod gan gynnwys adolygiad o'r Is-ddeddfau a chais i unioni'r rheoliadau ar draws Prydain. Yn y drafodaeth i ddilyn gofynnwyd a fyddai modd i Gyngor Gwynedd gael llinell argyfwng er mwyn derbyn adroddiadau o gonsyrn gan y cyhoedd, ac a oedd modd gosod bwiau ychwanegol yn y môr ger y glannau. Byddai hefyd modd cael arwydd rybuddion priodol i'r cyhoedd.

Penderfyniad:

Y dylai Cyngor Gwynedd weithredu fel a ganlyn:

- Gwella'r drefn adrodd
- Gosod bwiau ychwanegol yn eu lle
- Cytuno gyda'r Cyngor Tref ar eiriad arwyddion i rybuddio'r cyhoedd sy'n defnyddio'r traethau.
-

Diolchwyd i Mr Davies am fynychu'r cyfarfod ac am gytuno ar gynllun o weithredu.

b. Tai Fforddiadwy

Dim byd i'w adrodd

c. Prosiect VE

Roedd y gwaith ar gynhyrchu'r pabis yn mynd ymlaen yn dda iawn ac wedi cael sylw yn y Wasg leol. Roedd rhaglen 'Heno' S4C wedi mynegi diddordeb darlledu ar y prosiect. Roedd y gweithdai gydag Ysgol Treferthyr wedi cychwyn. Roedd cyfarfod wedi ei gynnal gyda'r siopwyr ar 25 Chwefror i drafod symud yr arddangosfa i fod o gwmpas y stryd fawr ac roedd brwdfrydedd a chefnogaeth i gynnal yr arddangosfa ar y Stryd Fawr. Bydd y cyfarfod nesaf diwedd mis Mawrth.

Penderfyniad:
Derbyn er gwybodaeth.

d. Prosiect Strydoedd Unigryw
Roedd bil hwyr wedi cyrraedd ar gyfer gosod plac i'r cerflun a gan fod y prosiect wedi ei gau - gofyn i'r Cyngor Tref am yr hawl i dalu hwn. Bil o £138 yn cynnwys TAW i Eryri Eco Construction.

Penderfyniad
I dalu'r anfoneb i Eryri Eco Construction

e. Wi fi i'r dref
Nodwyd y byddai'n fuddiol edrych i'r posibiliadau o gael Wi-fi ar gyfer tref Criccieth.

Penderfyniad
I ymchwilio i'r posibiliad ac edrych ar gostau.

15-03/20 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell
Aros am ymateb.

16-03/20 Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth

a. Aros am adroddiad ar yr amddiffynfeydd gan Gyngor Gwynedd.
b. Adroddodd Swyddog Cyngor Gwynedd bod y Cyngor wedi cysylltu gyda chontractwyr ar gyfer gwaith atgyweirio yn dilyn y stormydd diweddar. Roedd yn gobeithio y byddai modd i'r gwaith gynnwys gosod meinciau yn ôl ar y Prom yng Nghriccieth.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth.

17-03/20 Trafnidiaeth yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd – does dim son am yr arwyddion newydd eto!!

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth

18-03/20 Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Roedd y Clerc wedi cadarnhau gyda JH Williams cyflenwr torri gwrych Llwybr Rhif 1 am yr angen i dorri'r clawdd erbyn diwedd Mawrth, cyn y cyfnod nythu adar a hefyd wedi cadarnhau hyn gyda Chyngor Gwynedd. Roedd hefyd wedi cadarnhau y bydd yn gyfrifol am farbio mynwent Pen y Maes am gyfnod o 3 blynedd.

Penderfyniad:

Derbyn er gwybodaeth

19-03/20 Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

20-03/20 Torri coed yng Nghriccieth

Adroddodd y Cyng. Phil Jones ei fod mewn cysylltiad gyda chyrff i geisio trefnu asesiad coed i'r dref. Nid oedd y Woodland Trust yn medru helpu.

Penderfyniad

Derbyn er gwybodaeth

21-03/20 Meinciau Tref Criccieth

Dim byd i'w adrodd

22-03/20 Byrddau snwcer y Cyngor Tref

Roedd diddordeb wedi ei fynegi mewn prynu un o'r ddau hen fwrdd snwcer.

Penderfyniad:

Y Clerc i drefnu hysbyseb i wahodd bidiau wedi'i selio.

23-03/20 Derbyniadau

Dim

24-03/20: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£34.09(siec 101389)
• Cyflog y Clerc (Chwefror)	£755.66 (siec 101390)
• Dream Internet Solutions	£35.00 (siec 101391)
• Costau Clerc (Swyddfa)	£289.28 (siec 101392)
• R.J.Electrics	£9,273.60.00 (siec 101393)
• Mrs W Blackwell (Prosiect VE)	£74.84 (siec 101394)
• Un Llais Cymru	£322.00(siec 101395)*
• Eryri Eco Construction	£138.00 (siec 101396)*

*Cytunwyd i dalu'r biliau ychwanegol yn ystod y cyfarfod.

Penderfyniad:

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 14 Ebrill 2020**.**

** Oherwydd cyfarwyddiadau y Llywodraeth mewn ymateb i argyfwng COVID-19 mae'r cyfarfod wedi'i ganslo

Atodiad 1 Cyllideb 2020/2021

Incwm	
Praesept	£42,000
Arall (trosglwyddiad o arian wrth gefn)	£26,760
Cyfanswm	**£68,760**
Gwariant	
Cyflog	£9,800
Cyfieithu	£1,000
Yswiriant	£1,800
Cynnal llwybrau	£600
Torri Gwair	£5,000
Rhent stafell	£1,000
Stampiau	£150
Costau swyddfa	£150
Aelodaeth	£400
Cyfrifon (archwilio)	….£700
Cyrsiau	….£700
Nadolig	£5,000
Sul y Cofio	……£25
Deddf data	……£35
Costau Clerc swyddfa	…..£900
Costau Clerc teithio	…..£500
Toiledau	£6,000
Manion/arall	£5,000
Cyfraniad Neuadd Goffa	£5,000
Cyfraniadau eraill	£5,000
Prosiectau	£20,000
CYFANSWM CYLLIDEB	**£68,760**